

YR ATGYFODIAD

Adnodau agoriadol:

'Peidiwch ag arswydo. Yr ydych yn ceisio Iesu, y gŵr o Nasareth a groeshoeliwyd.'

'Nid yw ef yma, oherwydd y mae wedi ei gyfodi, fel y dywedodd y byddai; dewch i weld y man lle bu'n gorwedd. Ac yna ewch ar frys i ddweud wrth ei ddisgyblion.'

'Ond i'w tyb hwy, lol oedd yr hanesion hyn, a gwrthodasant gredu'r gwragedd. Ond cododd Pedr a rhedeg at y bedd; plygodd i edrych, ac ni welodd ddim ond y llieiniau. Ac aeth ymaith, gan ryfeddu wrtho'i hun at yr hyn oedd wedi digwydd.'

Gweddïwn:

Cynorthwya ni, ein Tad, i brofi o'r newydd wefr y digwyddiad rhyfedd hwn fod Iesu yn fyw, ac yn real yng nghalon pwy bynnag sy'n credu yn ei enw. Os gweli'n dda, anrhydedda ni â'th bresenoldeb yn yr oedfa hon, a phlyg ni i'th addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Er mwyn Iesu, ein Ceidwad byw. Amen.

Emyn 549: *Fe dorrodd y wawr, sancteiddier y dydd*

Llefarydd:

Bob blwyddyn, rydym yn edrych ymlaen at dymor y gwanwyn. Mae tymor y gaeaf eto eleni wedi bod yn hir, yn wlyb ac yn oer, ond o'r diwedd mae'r coed yn dechrau blaguro a'r caeau yn dechrau glasu. Mae hyn yn arwydd fod oerni'r gaeaf yn dechrau cilio. Mae'r tywydd yn dechrau cynhesu, ac erbyn mis Mai, rydym yn gobeithio y bydd natur unwaith eto yn ei ogoniant.

Gŵr sy'n mynegi hyn yn hyfryd iawn yw'r prifardd o Lanrwst, T. Glynne Davies:

*Diwrnod o haf ym Mai,
a'r awyr yn llachar las.
Oerni y Gaeaf ar drai
a'r Gwanwyn yn dda ei flas.*

Ond mae 'na ddyhead arall hefyd yn does yn ein calonnau fel Cristnogion, sef y dyhead am wanwyn ysbrydol unwaith eto yn ein heglwysi:

*Anadla, Iôr y Gwanwyn
Fel awel dros ein tir
I ail ddihuno Cymru
O gwsg Gaeafau hir.*

Mae gweddïo taer ac ymdrechion cywir wedi cael eu gwneud dros y blynyddoedd i ddeffro eglwysi ein gwlad, ond hyd yma, mae arwyddion deffroad yn brin iawn. Mae'r gwanwyn ysbrydol yn hir yn dod. Yn wyneb hynny, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn codi'n golygon i'r nefoedd ac yn edrych o'r newydd ar neges fawr yr Atgyfodiad. Ond pa sail sy gennym i gredu yng ngrym yr Atgyfodiad, a pha bethau amlwg sy'n cadarnhau ein cred fod Iesu yn goncwerwr mawr ac yn fyw heddiw? Cyn cynnig atebion i'r cwestiynau hyn, fe wrandawn ar dystiolaeth yr Apostol Paul i atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist.

Darlleniad: Llythyr Cyntaf Paul at yr Eglwys yng Nghorinth 15: 1–11 ac yna 12–19

Emyn 551: *Arglwydd bywyd, tyred atom*

Llefarydd:

Yng ngweddill ein myfyrdod, ceisiwn ateb y cwestiynau pa sail sy gennym i gredu yng ngrym yr Atgyfodiad, a pha bethau amlwg sy'n cadarnhau ein cred fod Iesu yn goncwerwr mawr ac yn fyw heddiw?

Yn gyntaf. Bodolaeth yr Eglwys Gristnogol.

Mae'r ffaith fod yr Eglwys wedi para dros ugain canrif yn brawf diamheuol fod rhywun wedi ei chynnal a'i chadw'n fyw, a'r rhywun hwnnw i ni, wrth gwrs, yw'r Arglwydd Iesu Grist. Yn y ganrif gyntaf oC roedd yr Ymerodraeth Rufeinig mewn grym ac awdurdod mawr, ac roedd ei dylanwad yn ymestyn bron i bob rhan o'r byd – o Sbaen yn y gorllewin i Armenia yn y dwyrain. Heddiw, mae'r Ymerodraeth Rufeinig wedi peidio â bod ers canrifoedd, ond y mae Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist yn dal yn fyw.

Pan oedd Iesu Grist yn ŵr ifanc, criw bychan o ddeuddeg oedd ei ddisgyblion cyntaf, ac wedi ei atgyfodi, hedyn bychan fel hedyn mwstard oedd nifer aelodau'r Eglwys Fore. Ond i lawr dros y canrifoedd, mae'r hedyn hwnnw wedi tyfu yn goeden fawr, gyda'i changhennau erbyn heddiw yn ymestyn bron dros holl wledydd ein byd. Nid ein bwriad yw clodfori'r Eglwys Gristnogol, gan roi'r argraff ei bod yn berffaith. Na, mae'n amhosibl iddi fod yn berffaith oherwydd ein cyflwr ysbrydol a moesol fel aelodau ohoni. Pechaduriaid a phobl gyffredin ydym oll, ond yr hyn sy'n ardderchog yw mai pobl gyffredin gydag Arglwydd anghyffredin yw aelodau'r Eglwys Gristnogol. Mewn geiriau eraill, mae'r Eglwys wedi para, nid oherwydd ein rhinweddau ni fel aelodau, ond oherwydd bod Crist yn Waredwr ei Eglwys, ac yn rym bywiol o'i mewn.

Mae'r Eglwys Gristnogol o bob enwad yng Nghymru heddiw yn mynd drwy gyfnod anodd, ac mae'r gyfundrefn grefyddol, fel y gwyddom amdani, yn darfod. Ond yr un mor wir yw nad yw'r Crist byw yn dibynnu ar barhad cyfundrefnau i fyw. Yn ystod ei fywyd ar y ddaear, er ei fod yn aelod o gyfundrefn grefyddol Iddewig, ni chafodd ddim cefnogaeth oddi wrthi – dim ond gwrthwynebiad a chasineb. Ni allent stumogi ei neges, ac fe'i croeshoeliwyd mewn modd gwaradwyddus ar ben mynydd rwbel Calfaria. Ond ymhen tri diwrnod roedd y Crist croeshoeliedig byw wrthi yn codi Eglwys newydd iddo'i hun.

Fel y dywedwyd ar y dechrau, mae tyfiant y gwanwyn yng nghefn gwlad yn aml iawn yn brin ac yn hir yn dod. Yn aml iawn, mae'r ffarmwr yn poeni fod cynhaeaf y flwyddyn flaenorol ar gyfer yr anifeiliaid yn prinhau bob dydd a bron â darfod. Ar adegau felly, mae'n iawn cael ein temtio i gredu na fydd y gwanwyn yn dod, ond yn ddiethriad, dod mae tymor y gwanwyn yn ei amser ei hun gan gyflawni trefn y tymhorau.

Onid yw hyn yn wir hefyd am dymhorau ysbrydol bywyd? Pryd y gwelwn ni eto adfywiad yn y tir, a phraidd dy Eglwys yn ymateb eto i rym cariad Duw yn Iesu Grist? Dyma yw ein gweddi a'n cred. Eiddo Crist yw'r dyfodol, ac '*ni chaiff holl bwerau uffern y trechaf*' ar ei Eglwys ef. Mae bodolaeth yr Eglwys yn brawf heddiw o'r Crist Atgyfodedig byw.

Gweddiwn:

Diolchwn iti, ein Tad, am eglwysi ein gwlad, a'r fendith a gawsom yng nghwmni'n gilydd wrth dy addoli ac ymateb i wirioneddau dy Air yn Iesu Grist. Rydym yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi cymdeithas mewn adeiladau eraill, ond diolchwn fwy am gymdeithas dy Eglwys yn y tŷ hwn. Diolchwn, ein Tad, am y cyfle,

nid yn unig i arddel perthynas dda a'n gilydd, ond i ymwybod gyda'n gilydd mai dy blant di ydym trwy dy drugaredd, a brodyr a chwirydd i'n gilydd yn Iesu Grist.

Maddau inni am dlodi ein ffydd a'n diffyg sêl yn aml. O Dad trugarog, yn dy drugaredd, er mwyn dy Fab Iesu a'n carodd hyd angau ar groes, ac sy'n fyw heddiw, dyro inni faddeuant o'n diffygion mawr, a deffro ynom ddyhead newydd i ymroi i'th waith.

Yn ôl ein harfer, ein Tad, gweddiwn dros deulu poen a gofid – poen siom colli iechyd a gofid a hiraeth colli anwyliaid a ffrindiau. Ni allwn yn well na'u cyflwyno i'th ofal grasol di, ein Tad, a rhoi diolch am bob gofal a estynnir iddynt gan eu teuluoedd. Diolchwn am wasanaeth meddygon a nyrsys yn gweithio'n lleol ac yn ysbytai ein gwlad. Dyro iddynt sêl dy fendith yn eu gwaith, ac arwain ninnau i gario beichiau ein brodyr a'n chwirydd yn ysbryd dy gariad. Gofynnwn hyn er mwyn yr un a'n gwasanaethodd hyd angau ar groes ac sydd heddiw yn dal i'n sbarduno i gyflawni gweinidogaeth dy gariad. Amen.

Llefarydd:

Yr ail reswm sy'n cadarnhau ein cred yn y Crist byw yw bodolaeth y Testament Newydd. Dyma'r llyfr sy'n cofnodi hanes Iesu Grist o'i grud i'w fedd. Ac nid yn unig hynny ond hanes rhyfedd ei atgyfodiad ar fore'r trydydd dydd, a hefyd hanes arwrol ei ddilynwyr yn yr Eglwys Fore. Tybed beth fyddai wedi digwydd i'r disgyblion pe byddai Iesu ddim wedi atgyfodi? Yn fwy na thebyg, byddent wedi mynd yn ôl at eu teuluoedd, ac yn ôl i'w hen orchwylion. Yn wir, dyna yn union wnaeth rhai o'r disgyblion am ddau ddiwrnod – gadael y Crist marw yn ei fedd a dychwelyd i'w hen ffyrdd. Ond fe ddigwyddodd yr annisgwyl.

Ym more bach y trydydd dydd, cyn i'r chwiorydd ddod at y bedd i eneinio ei gorff, fe atgyfodwyd yr Iesu croeshoeliedig marw yn Grist buddugoliaethus byw, ac o'r dydd hwnnw ymlaen, gweddnewidiwyd bywyd y disgyblion yn llwyr. Felly, heb y Crist byw, ni fyddai Eglwys Gristnogol, na chwaith Destament Newydd. Y Crist byw a roddodd fod i'r Testament Newydd sy'n tystio i fawrion weithredoedd Duw yn Iesu Grist. Erbyn heddiw y mae'r llyfr hwn wedi ei gyfieithu i ddeunaw cant o ieithoedd y byd gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Yn ddiamheuaeth, y mae bodolaeth yr Eglwys Gristnogol a thystiolaeth y Testament Newydd yn cadarnhau ein cred yn y Crist byw.

Emyn 381: *Hyfryd eiriau'r Iesu*

Gweddïwn:

Diolchwn iti, ein Tad, am emyn hyfryd Elfed yn mynegi gwirioneddau dy Air – dy Air sy'n tystio i fawrion weithredoedd dy gariad yn Iesu Grist. Heb y Gair a wnaethpwyd yn gnawd ni fyddai gennym wybodaeth am dy gariad anfeidrol tuag atom na chyfoeth newyddion da y Testament Newydd. Diolchwn iti, ein Tad, am Gymdeithas y Beibl a'i gweithwyr sydd wedi cyfieithu dy Air i nifer fawr o ieithoedd cenedloedd y byd. Erfyniwn am dy fendith ar eu llafur, ac i ninnau ledaenu dy Air mewn meddwl, gair a gweithred.

*Er mwyn y gair, er mwyn yr Oen,
er mwyn ei boen a'i gariad,
gwna ni'n ddisyflyd dros y gwir,
a gwna ni'n bur ein rhodiad. Amen.*

Llefarydd:

Y trydydd rheswm sy'n cadarnhau ein cred yn y Crist byw yw bodolaeth 'Dydd yr Arglwydd', sef dydd Sul – y dydd a

neilltuodd Cristnogion yr Eglwys Fore i ddathlu'r atgyfodiad fod Iesu yn Arglwydd bywyd a marwolaeth.

Hwn ydyw'r dydd y cododd Crist

gan ddryllio pyrth y bedd;

O cyfod, f'enaid, na fydd drist,

i edrych ar ei wedd.

Mae'n arwyddocaol mai Iddewon oedd disgyblion Iesu Grist, a hefyd ei ddilynwyr cyntaf yn yr Eglwys Fore. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu magu ar aelwyd grefyddol Iddewig, ac yn naturiol, roedd y Saboth Iddewig a gynhelid ar ddydd Sadwrn yn hollbwysig yn eu golwg. Wedi'r cyfan, dyma'r diwrnod sanctaidd i roi heibio eu gwaith i addoli Duw. Ac roeddynt yn gwneud hyn oherwydd bod Duw wedi eu gorchymyn:

'Cofia y dydd Saboth, i'w sancteiddio ef. Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith: ond y seithfed dydd yw Saboth yr Arglwydd dy Dduw.'

Os ydych wedi bod yn ninas Jerwsalem, efallai i chi weld teuluoedd Iddewig, yn eu gwisgoedd duon, yn mynd i addoli Jehofa Dduw ar ddydd Sadwrn. O gofio hyn, nid heb reswm digonol newidiodd Cristnogion o dras Iddewig eu diwrnod addoli o ddydd Sadwrn i ddydd Sul. Roedd atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist yn ddigwyddiad mor aruthrol fawr yn eu profiad fel iddynt gefnu ar y Sadwrn Iddewig a neilltuo'r Sul yn ddiwrnod i ddathlu'r Crist byw mewn llawenydd. Mae gan Gwilym Hughes gerdd sy'n sôn am ein diffyg llawenydd ni heddiw fel Cristnogion, ac ynnddi, mae'n gofyn am faddeuant. Dyma ran ohoni:

Maddau inni am fynych gollir llawenydd,

a mynd o amgylch fel Atlas a'r byd ar ei gefn:

fel pe baem heb glywed yr efengyl,

*na chlywed am ei gorfoledd.
Fel pe bai Annas a Chaiaffas, Herod a'r milwyr
wedi cael y maen i'r wal
a thithau wedi colli'r dydd.*

Iesu'n colli'r dydd. Wel, gwae ni os mai dyma'r argraff rydym yn ei rhoi. Onid Paul a ysgrifennodd yn ei lythyr at Gristnogion Rhufain, 'Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?' Tebyg hefyd oedd byrdwn Pedr yn ei neges i dyrfa fawr o bobl yn Jerwsalem. Dechreuodd ar nodyn llym drwy ddweud am Iesu, 'yr hwn a groeshoeliasoch chwi, eithr Duw a'i cyfododd oddi wrth y meirw.'

Dyma yw achos ein llawenydd – gallu cariad achubol Duw yn Iesu Grist. Yn ein llyfr emynau ceir cwpled syml sy'n mynegi gwirionedd mawr am y Duwdod ac am Iesu Grist:

*Cans byw y mae Duw a chariad yw Ef;
mae bywyd a chariad yn un yn y Nef.*

Bywyd a chariad sylwch. Dyma'r ddau beth mawr welwyd ym mherson yr Arglwydd Iesu Grist. Bywyd sanctaidd yn llawn gras a gwirionedd a chariad a drechodd ein gwaethaf ni ar groes Calfaria, ac a orchfygodd, hyd yn oed, gaethiwed angau ac anobaith y bedd. Na,

*Ni allodd angau du
ddal Iesu'n gaeth
ddim hwy na'r trydydd dydd –
yn rhydd y daeth.*

Y mae'n rhydd heddiw hefyd i'n hanrhydeddu â'i bresenoldeb sanctaidd, ac i'n bendithio â meddyginiaeth ei gariad. Gadewch

inni gredu hyn a'n holl galon, ac ymateb fel Eglwys mewn llawenydd fod Iesu yn fyw:

*Gorfoleddwn, llawenhawn:
gwag yw'r bedd, a'r nef yn llawn;
rhoddwn ynot ti ein ffydd,
arwr mawr y trydydd dydd. Amen.*

Emyn 548: *Ar fore'r Pasg datseinier cân*

Y Fendith:

Mae Iesu yn fyw! O Arglwydd Iesu, gad i'r geiriau hyn atseinio yn ein clustiau wrth inni ymadael a'th dŷ, a'n llenwi â gorfoledd dy gariad, ac â nerth yr Ysbryd Glân i gyhoeddi'r newydd syfrdanol hwn yn llawen mewn gair a gweithred.

A boed i dangnefedd Duw sydd uwchlaw pob deall gadw ein calonnau a'n meddyliau yng Nghrist Iesu ein Harglwydd heddiw a hyd byth. Amen.